Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Hydref 2018.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) Richard Parry – Bryncir, John Jones Anwen Humphreys Maldwyn Owen Clifford Williams – Garndolbenmaen, Dafydd Thomas – Penmorfa, Richard Williams Gwilym Evans – Prenteg, Huw Pritchard Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Lloyd Williams – Golan. Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman

2 Ymddiheuriadau - Amanda N Owen, Gwenno Huws, Eifion Williams.

3 Ddim yn bresennol – neb.

4 Datgan Buddiant – Richard Parry (eitem 8 gwyro llwybr cyhoeddus rhif 18)

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – Cofnodion – 5/9/18.
Dafydd Thomas yn datgan eu cywirdeb a John Jones yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Egwlys St Michael's Cwm Pennant - mae'r Eglwys yng Nghymru wedi trefnu i gontractwr ail osod y llechi ar y to.

Gorsaf Bws Glandwyfach - mae Adran Cludiant Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda'r cwmni sy'n rhedeg y gwasanaeth i ofyn iddynt ddefnyddio'r arosfan priodol.

Pont Dolbenmaen Jac y Neidiwr - derbyniwyd ateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn datgan nad oes ganddynt yr adnoddau i gael gwared â'r planhigyn, heblaw ei fod mewn safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Gellid pasio ymlaen unrhyw gofnod ohono at Wasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru. Clerc i holi Cyngor Gwynedd am fap o'r ardal.

Gordyfiant yn ardal Treflys - mae gweithwyr yr Adran Priffyrdd wedi torri ychydig ar y gordyfiant. Mae'r Adran angen gwneud archwiliad i weld os ydy'r gordyfiant yn ddigonol i anfon rhybudd i'r tirfeddiannwr.

Cyrhaeddodd y Cynghorwyr Gwilym Evans, Richard Williams a Megan Lloyd Williams y cyfarfod.

Mynwent Bethel - mae Swyddog Difa Pla Cyngor Gwynedd wedi ymweld â'r fynwent ar 3 achlysur. Darganfuwyd mai llygod y maes sydd wedi bod yn tyllu ac nid llygod mawr. Nid yw'n bosib rhoi gwenwyn i lawr, oherwydd y perygl i adar gwyllt.

7 Mynwentydd

Eglwys St Michael's Cwm Pennant - carreg bedd yn rhydd. Cynghorydd John Jones am ymweld â'r fynwent.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Ysgol Golan – mae Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd am ymweld â'r llwybr.

Gorchymyn Cyngor Gwynedd – Gwyro Llwybr Cyhoeddus Rhif 18 – dim gwrthwynebiad.

9 Adroddiad Pentrefi –

Garndolbenmaen

Llinellau melyn - cynhaliwyd cyfarfod gydag Iwan ap Trefor Cyngor Gwynedd. Nid yw'n bosib rhoi llinellau melyn ar y lonydd.

Cymdeithas Cymunedol Garndolbenmaen - derbyniwyd cais gan swyddogion y Gymdeithas Gymunedol i fynychu cyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor, er mwyn cael egluro beth yw eu hamcanion. Penderfynwyd eu gwahodd i roi cyflwyniad ar ddechrau cyfarfod y Cyngor.

Rhannwyd taflen wybodaeth i'r Cynghorwyr ar sut i archebu cyfranddaliadau yn y Cross Foxes.

Prenteg

Coeden angen ei dorri o dan y golau wrth Bron Awen. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Golau Stryd.

10 Polisïau'r Cyngor

Cafodd polisïau'r Cyngor eu hadolygu ym mis Ebrill. Cwblhawyd y newidiadau ac mae angen eu golygu'n derfynol cyn eu rhoi ar wefan y Cyngor. Penderfynwyd y byddai'r Cadeirydd, Is-gadeirydd a Megan Lloyd Williams yn gwneud y gwaith. Clerc i yrru'r polisïau atynt.

11 Sedd Wag

Ni dderbyniwyd cais am gynnal etholiad i lenwi'r sedd wag yn Nhreflys. Gall y Cyngor symud ymlaen i gyfethol aelod i'r Cyngor i gynrychioli'r ardal.

12 Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf –

Penderfynwyd prynu torchau pabi i'w gosod ym mhob Ward. Bydd y Cynghorwyr yn penderfynu ar y lleoliad.

13 Pont y Traeth

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Archifdy yn Nolgellau. Mae 2 o fapiau yno –

Map dyddiedig 1775 lle gelwir y bont yn "The Bridge".
Map dyddiedig 1889 lle gelwir y bont yn "Pont Croesor".

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn parhau gyda'r gwaith ymchwil.

14 Llywodraeth Cymru – Ymgynghoriad – Heolydd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru

Yn dilyn pryderon aelodau'r Cynulliad parthed nifer y lonydd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru a'r problemau sy'n codi o achos y lonydd yma. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn adolygu'r sefyllfa. Penderfynwyd cwblhau'r dogfennau ymgynghori i roi gwybodaeth ar y lonydd heb eu mabwysiadu yn yr ardal.

15 Gwefan

Adroddodd y Clerc fod y wefan yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Trafodwyd nad yw'n bosib cael mynediad trwy Google wrth fewnbynnu "Cyngor Dolbenmaen". Clerc i gysylltu gyda Cymru1.

16 Gohebiaeth

a Cyngor Gwynedd – Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – Grant Chwaraeon Gist Cymunedol Cronfa Chwaraeon Cymru.
Biniau Halen.

b Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Eryri.

17 Cynllunio

Rhestrau 17/9, 24/9/18. Ychwanegwyd rhestr 1/10/18.

Ceisiadau Cynllunio

C18/0661/36/LL Cais ar gyfer newid defnydd marchogol. Coed y Llyn, Treflys, Porthmadog. LL49 9YL – dim gwrthwynebiad.

C18/0843/36/LL Estyniadau a chodi modurdy ar wahân. Stabal Eisteddfa, Pentrefelin. LL52 0PT – dim gwrthwynebiad.

18 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Dim.

Monitro'r gyllideb – Taenlen misol. Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Gwirio'r llyfrau 1/7/18 – 30/9/18. Cafwyd yn gywir.

Biliau i'w talu

Cyflog Clerc	= £ 237.99
Ffôn	= £ 10.00
Cyfrifiadur	= £ 15.00
HMRC	= £ 59.40
Gwasg y Bwthyn	= £ 12.96
Gamlins (William George)	= £ 302.88
Ychwanegwyd Gwasg y Bwthyn	= £ 14.52

Derbyniadau – dim.

Balansau Cyfrifon Banc: Cadw - £16,784.10. Cyfredol - £8,851.55

19 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg –

- Canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf
- Ceisiadau cynllunio